PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

*Aberystwyth… un o'r llefydd gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

# NEWYDDION Aber

RHIFYN 23 - Gwanwyn 2016




2 Partneriaeth gyda'r Urdd



4 Lansio Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr



5 Medal y Pegynau



6 Rho Wybod Nawr




16 Yn ogystal â'r swydd bob dydd…




## Yr Athro John Grattan yn dechrau yn swydd Is-Ganghellor Dros Dro

Ar y 1af o Chwefror, dechreuodd yr Athro John Grattan yn swydd Is-Ganghellor Dros Dro, yn dilyn cyhoeddiad gan yr Is-Ganghellor, yr Athro April McMahon yn Rhagfyr 2015 ei bod yn dymuno camu i lawr ar y 31ain o Orffennaf 2016, ar ddiwedd ei thymor o bum mlynedd yn y swydd.

Bydd John yn cyflawni rôl yr Is-Ganghellor Dros Dro hyd nes y bydd Is-Ganghellor newydd yn cymryd at y swydd, gydag April yn canolbwyntio ar agweddau allanol o rôl yr Is-Ganghellor tan ddiwedd Gorffennaf.

Mae John yn raddedig o Brifysgol Manceinion (Daearyddiaeth ac Archaeoleg), a derbyniodd Ddoethuriaeth o Brifysgol Sheffield lle'r astudiodd effaith echdoriadau folcanig yng Ngwlad yr Iâ ar gymunedau hynafol yng ngogledd a gorllewin Prydain.

Ymunodd â Phrifysgol Aberystwyth fel darlithydd yn 1995, ac ers hynny cyflawnodd nifer o swyddi arweinyddol mewnol allweddol, gan gynnwys Deon Cyfadran y Gwyddorau, cyn ei benodi'n Ddirprwy Is-Ganghellor yn 2012.

Ar hyn o bryd mae John yn Gadeirydd Grŵp Gweithredu Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru, yn aelod o fwrdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA), yn Gynrychiolydd Cenedlaethol ar y Grŵp Strategaeth Gwybodaeth Gyhoeddus Addysg Uwch, ac yn aelod o *SAGE* - Cyngor Gwyddonol i'r Llywodraeth mewn Argyfyngau.

Yn ddiweddar cafodd ei benodi i Grŵp Cynghori Arbenigol Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ar Ddylunio a Gweithredu Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, Pwyllgor Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar Ganlyniadau a Chyflawniadau Myfyrwyr, a bwrdd Rhaglen Dysgu Byd-eang Cymru.

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan y **Tîm Cyfathrebu, Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffôn 01970 622946.
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o NEWYDDION Aber ar gael ym mis **Ebrill 2016.**
Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Llun 29 Chwefror**.

NEWYDDION

Wrth son am ei benodiad, dywedodd: “Mae’n fraint i mi gael fy mhenodi i rôl yr Is-Ganghellor Dros Dro ac rwy’n edrych ymlaen at weithio gydag April dros y misoedd nesaf i adeiladu ar y gwaith rhagorol sydd wedi’i wneud yn ystod ei chyfnod yma.

“Yr hyn sydd wedi fy ysgogi ar hyd yr amser yw fy mod yn credu taw prif ddiben prifysgolion yw galluogi pobl i newid eu bywydau mewn modd cynhwysfawr, er mwyn rhoi iddynt y cefndir, y sylfaen a’r hyfforddiant a fydd yn eu galluogi i gyrraedd y bywyd y maent yn ei ddeisyfu - eu gobeithion, eu dyheadau a’u breuddwydion – ac mae hyn yn seiliedig ar fy mhrofiad personol i.

“Wnes i ddim mynd i brifysgol tan oeddwn yn 26 mlwydd oed. Ar y pryd roeddwn yn negesydd beic modur yn Llundain a newidiodd popeth i fi yn sgìl mynd i brifysgol. Yr wyf yn hollol grediniol mai trawsnewid bywydau pobl yw busnes prifysgolion, drwy’r ffordd yr ydym yn ymwneud â’n myfyrwyr a thrwy ein hymchwil. Os gwnawn ni lynu at y genhadaeth hon, mae’n annhebygol na fyddwn yn llwyddiannus.

“Mae Aberystwyth, fel y rhan fwyaf o brifysgolion y wlad ar hyn o bryd yn wynebu rhai heriau dwfn o ran recriwtio, ac o ran cyllid. Mae’n rhaid i ni fod yn glir iawn a chanolbwyntio ar yr heriau allweddol sy’n ein hwynebu. Fy nod yn y misoedd nesaf fydd canolbwyntio ar themâu allweddol sy’n hanfodol i adeiladu prifysgol gynaliadwy; recriwtio iach a sicrhau ein bod yn darparu’r profiad myfyriwr gorau posibl.

“Gan fod y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn aros yn agos i gartref y dyddiau hyn oherwydd y gost uchel o fynd i brifysgol i’r myfyrwyr a’u rhieni, mae’n rhaid i ni greu rhesymau go iawn a ffactorau denu cryf a fydd yn gwneud i ddarpar fyfyrwyr ddewis Aberystwyth. Mae’n rhaid iddynt gael gwybod amdanom ar hyn rydym yn ei gynrychioli; profiad myfyriwr ac addysgu rhagorol, ac ymchwil ardderchog sy’n mynd i’r afael â’r heriau mawr sy’n wynebu pobl a’r blaned; rwy’n hollol argyhoeddedig o hyn.”

“Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud gan bawb yma yn Aberystwyth er mwyn gwella ein hystâd a phob agwedd o’r dysgu a’r addysgu, ac rwyf o’r farn y byddwn yn medi ffrwyth yr holl waith caled hwn eleni. Gyda’n gilydd gallwn adeiladu ar hyn, fel bod Aberystwyth unwaith eto’n cael ei gydnabod fel lle sy’n cynnig un o’r profiadau myfyrwyr gorau.”

Mae John yn awyddus i ymweld â phob agwedd o’r Brifysgol yn ystod misoedd nesaf. Os hoffech ei wahodd i ymweld â’ch adran neu grŵp, neu i fynychu’r digwyddiad, cysylltwch â Kim Broom yn Swyddfa’r Is-Ganghellor ar 2101 / kmd@aber.ac.uk.

# Lansio partneriaeth chwaraeon newydd gyda’r Urdd

## Mae’r Brifysgol wedi cyhoeddi cytundeb ar gyfer partneriaeth newydd gydag Adran Chwaraeon Urdd Gobaith Cymru a fydd yn cynnig cyfleoedd newydd ac yn hyrwyddo chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd y bartneriaeth ei lansio a 27 Ionawr yng Ngwersyll yr Urdd yng Nghaerdydd yng nghwmni Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Ken Skates. Hefyd yn bresennol roedd y chwaraewr rygbi rhyngwladol, Elinor Snowsill ac enillydd Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn Gwobrau Chwaraeon Cymru, Elan Gilford.

Mae Adran Chwaraeon yr Urdd yn cynnal wyth cystadleuaeth genedlaethol bob blwyddyn, gyda tua 45,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan. Bydd gan y Brifysgol bresenoldeb yn yr holl ddigwyddiadau hyn a byddant hefyd yn bartner allweddol yng ngweithgareddau wythnosol yr adran ledled Cymru gan gyrraedd 100,000 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn.

Bydd y bartneriaeth hefyd yn cynnwys cyfraniad ariannol gan y Brifysgol i noddi gwisg staff yr adran, cefnogi a datblygu mentrau cymunedol newydd a swyddfa i swyddogion chwaraeon newydd.

Dywedodd Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor dros y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol Prifysgol Aberystwyth: “Mae’r Brifysgol wedi bod yn gefnogol o’r Urdd ers blynyddoedd, yn cefnogi y gweithgareddau diwylliannol yn yr Eisteddfod a’r ddarpariaeth chwaraeon, gan gynnwys Cyrsiau Hyfforddi Chwaraeon. Fel y Brifysgol gyntaf yng Nghymru, rydym yn falch o allu cryfhau ein cefnogaeth wrth lansio’r bartneriaeth hon. Trwy hynny rydym yn darparu platfform i bobl ifanc Cymru ddatblygu eu sgiliau a hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg ym maes chwaraeon.”



*Chwith i’r dde: Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth; Syr Emyr Jones Parry, Canghellor Prifysgol Aberystwyth; Ken Skates AS, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth; Sioned Hughes, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru; y chwaraewr rygbi rhyngwladol Elinor Snowsill ac Elan Gilford enillydd Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn Gwobrau Chwaraeon Cymru.*

## COLOFN YR IS-GANGHELLOR




Os buoch chi'n crwydro (neu, efallai'n fwy tebygol, yn camu'n bwrpasol) ar hyd y Prom yn ddiweddar, ar eich ffordd heibio'r Hen Goleg, efallai i chi weld dwy faner drawiadol iawn ynghlwm wrth y rheiliau. Mae Mary Lloyd Jones yn garedig iawn wedi dylunio a chreu'r baneri, yn ei harddull celfyddydol dihafal a nodweddiadol ei hun, i gefnogi prosiect 'Bywyd Newydd i'r Hen Goleg'. Mae'r Hen Goleg mewn lle delfrydol i fod yn adnodd i'r Brifysgol a'r dref fel ei gilydd, yn darparu canolbwynt yn y dyfodol i feithrin cyswllt â'r cyhoedd o ran ein hymchwil ryngddisgyblaethol, prosiectau ein myfyrwyr, celfyddyd, perfformiadau a chysylltiadau rhwng byd busnes a'r diwydiannau creadigol a diwylliannol. Diolch i waith hynod ddiwyd tîm yr Hen Goleg a'r Bwrdd Prosiect, daeth y weledigaeth gam yn nes at gael ei gwireddu pan gyflwynwyd cais manwl am gyllid i Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Bydd cynrychiolwyr Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn ymweld â ni rywbryd yn ystod y misoedd nesaf i asesu drostynt eu hunain pa mor ymarferol yw'r cynnig a'r angen am y prosiect. Ac os cewch chi gyfle, gobeithio y gallwch eu helpu i ddeall pwysigrwydd yr Hen Goleg i ni yma yn Aber. Rydym wrthi'n amlygu pwysigrwydd yr adeilad drwy ei ddefnyddio i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau ac i gynnig lle at ddefnydd ein partneriaid.

A rhoi un enghraifft, ar fore 15 Hydref, daeth y Brifysgol a'n cymuned leol at ei gilydd i ddathlu Diwrnod y Sylfaenwyr, a hynny mae'n debyg am y tro cyntaf ers 1872. Cefais y fraint o siarad yn y digwyddiad yn yr Hen Goleg, ynghyd â'r Dirprwy Faer, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, a chynrychiolydd lleol Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr. Roedd yn enghraifft wych o gyd-dynnu a chydblethu rhwng ein cymunedau – y dref, y myfyrwyr, y staff a'r cyn-fyfyrwyr. Ni chyrhaeddwyd lefel ysblander achlysur 1872, gan nad oes gennyf, gwaetha'r modd, rym i ddatgan diwrnod o wyliau i'r dref gyfan. Braidd yn wahanol oedd y fwydlen hefyd – yn 1872 bu'r dorf yn mwynhau 'tyrcwn, cyw iâr, coesgenni ham, cig tafod, hwyaid, grugieir, petris, ffesantod, pasteiod codi, pasteiod cwningod, pasteiod cig llo a ham, asbig a jelïau eraill, &c.', yn ôl adroddiad *The Welshman* ar 18 Hydref. Roeddem ni ychydig yn fwy ymataliol, er yn union fel yr achlysur yn 1872, llwyddodd ein cydweithwyr yn y gwasanaethau croeso i sicrhau bod 'yr ymborth wedi'i gyflwyno yn y modd uchaf oll a'i weini'n dda'.

Diolch yn fawr i bawb sydd eisoes wedi cefnogi'r amryw ddigwyddiadau rydym wedi'u cynnal yn yr Hen Goleg, o'n partïon mins-pei a gwin sbeis (chwedlonol erbyn hyn) a gynhelir i ddiolch i'n cydweithwyr, i ymweliad blynyddol Siôn Corn ag aelodau iau ein cymuned; yn ogystal â'r darlithoedd cyhoeddus a dathliadau'r myfyrwyr. Bob tro y dewch i ddigwyddiad yn yr adeilad rydych yn dangos pa mor dda y gallai weithio i ni i gyd – ac yn gwneud ychydig mwy i helpu i sicrhau y bydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr oesoedd a ddêl.

**Yr Athro April McMahon**
Is-Ganghellor



NEWYDDION

# Lansio'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr

Lansiwyd yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) yma ym Mhrifysgol Aberystwyth ar ddydd Llun 1 Chwefror.

Mae'r ACF, sydd bellach yn ei ddeuddegfed flwyddyn, yn rhoi cyfle i'n myfyrwyr israddedig yn eu blwyddyn olaf roi adborth dienw am yr hyn y maent wedi'i fwynhau am eu cyfnod yma, yn ogystal â sut maent yn teimlo y gallem wella'r profiad i fyfyrwyr.

Gofynnir cwestiynau wedi'u grwpio i saith maes i'r myfyrwyr: 'y dysgu ar fy nghwrs'; 'asesu ac adborth'; 'cefnogaeth academaidd'; 'cyfundrefn a rheolaeth'; adnoddau dysgu'; 'datblygiad personol' a 'boddhad cyffredinol'.

Er mwyn casglu'r data mwyaf cywir posibl rydym am annog nifer fawr o ymatebion gan ein myfyrwyr.

Rydym yn hyrwyddo'r Arolwg i'n myfyrwyr drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau. Os hoffech chi godi proffil yr Arolwg ymhellach gyda myfyrwyr yn eich Adran, datblygwyd amrywiaeth o ddeunyddiau marchnata ac maent ar gael ar www.aber.ac.uk/cy/nss/.

Fel cymhelliant, bydd myfyrwyr Aberystwyth sy'n cwblhau'r Arolwg eleni'n cael eu cynnwys mewn cystadleuaeth i ennill naill ai taith mewn hofrennydd neu iPad Mini.

Yn ogystal, mae cystadleuaeth adrannol i weld pa adran sy'n gallu bod y gyntaf i gyrraedd cyfradd ymateb o 50% yn ei holl raglenni. Bydd yr adran fuddugol yn ennill bwrdd yn y Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr yn ogystal â'r Wobr o hwyaden ACF Aber!

Edrychwch am y gorsafoedd Arolwg fflach ar hyd y campws o'r 1af o Chwefror lle bydd ein timau ACF gydag iPads i helpu myfyrwyr i gwblhau'r arolwg.

# Mis Hanes LGBT 2016

Cynhelir Mis Hanes LGBT drwy gydol mis Chwefror ac fel y llynedd, mae'r Brifysgol yn edrych ymlaen at ddathlu'r achlysur.

Bydd ABERRATION, a drefnir gan Ruth Fowler a Spring Out, yn cynnal digwyddiad Mis Hanes LGBT llawn sgyrsiau a cherddoriaeth fyw. Cynhelir y digwyddiad ddydd Gwener 19 Chwefror yn Stiwdio Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth am 7pm i ddechrau am 7.30pm. Pris y tocynnau fydd £7.50. Croeso i bawb. Cysylltwch â Ruth ar ruf@aber.ac.uk i gael gwybod mwy. Bydd y manylion ar gael cyn hir ar wefan Canolfan y Celfyddydau ac yn www.aberration.org.uk

Os hoffech chi gynnal digwyddiad i helpu i ddathlu Mis Hanes LGBT, cysylltwch â Ruth Fowler ruf@aber.ac.uk, sy'n helpu i gydlynu cyfres o ddigwyddiadau.

# Mae'r Cynllun Graddedigion AberYmlaen yn ôl!

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd wedi trefnu bod 61 o raddedigion yn cymryd rhan yn y cynllun eleni.

Fel Hyfforddeion AberYmlaen, maen nhw'n gweithio yma am fis, gan helpu gydag ystod o brosiectau diddorol ar draws y Brifysgol. Maen nhw'n derbyn rhaglen hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd, ac yn ennill profiad gwaith gwerthfawr i helpu hybu eu cyflogadwyedd.

Am fanylion pellach am AberYmlaen, y gwahanol elfennau a sut gall fod o fudd i chi, ewch i www.aber.ac.uk/cy/aberforward/.



NEWYDDION parhad

# Dyfarnu Medal y Pegynau i rewlifegydd o Aberystwyth

Dyfarnwyd Medal y Pegynau i'r Athro Bryn Hubbard, Cyfarwyddwr Canolfan Rewlifeg y Brifysgol.

Mae'r fedal yn cydnabod gwaith yr Athro Hubbard fel "ysgolhaig pegynol mewn rhewlifeg, daeareg rewlifol a strwythur a mudiant masau iâ".

Mae'r Athro Hubbard yn ymuno â rhestr o bobl uchel eu bri sydd wedi derbyn y fedal gan gynnwys Capten Robert F Scott, Syr Ernest Shackleton, a aeth gyda Scott yn ystod taith 1902-4, a Syr Edmund Hillary a Syr Vivian Fuchs a arweiniodd daith y Gymanwlad ar Draws yr Antarctig yn 1957-8.

Sefydlwyd Medal y Pegynau ym mis Medi 1904 er mwyn cydnabod y rhai a aeth ar daith lwyddiannus gyntaf Capten Robert F Scott i'r Antarctig. Dros y degawdau diwethaf mae'r fedal wedi'i chyflwyno'n bennaf i wyddonwyr sydd wedi gweithio am gyfnodau hir ac o dan amodau garw er mwyn casglu gwybodaeth newydd am y rhanbarthau pegynol.

Mae'r Athro Hubbard yn un o dri rhewlifegydd sydd â chysylltiadau â Phrifysgol Aberystwyth ac sydd wedi derbyn Medal y Pegynau: yr Athro Michael Hambrey, cyn gyfarwyddwr y Ganolfan Rewlifeg, a'r Athro Julian Dowdeswell, cyn bennaeth yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.



*Yr Athro Bryn Hubbard*

NEWYDDION MYFYRWYR



# Pethau mawr i UMAber!

Mae llawer iawn wedi digwydd ers ysgrifennu'r golofn ddiwethaf fis Awst, felly dyma rai o'r 'pethau mawr' yr hoffem i chi glywed amdanyn nhw…

Yn ystod Pythefnos y Glas bu ein gwirfoddolwyr Tîm-A yn cydweithio ag Ambiwlans Sant Ioan Cymru i leihau'r niferoedd a fyddai'n cael eu gweld yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys. Rydym yn falch iawn fod gostyngiad dramatig o 65% wedi bod yn y nifer o fyfyrwyr a welwyd yn Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys Bronglais eleni, o'i gymharu ag y llynedd – un ar ddeg o fyfyrwyr eleni, a 32 y llynedd. Cafodd 117 o fyfyrwyr driniaeth Sant Ioan a'u cludo adref ym Mws Diogelwch Undeb y Myfyrwyr; yn ystod y blynyddoedd a fu byddai'r myfyrwyr hynny wedi mynd i'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys neu i ofal yr heddlu. Mae'r fenter newydd hon wedi derbyn adborth cadarnhaol gan gwmnïoedd tacsi lleol, Heddlu Dyfed Powys, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Ysbyty Cyffredinol Bronglais.

Yn ystod y mis RAG blynyddol ym mis Tachwedd, bu'r clybiau a'r cymdeithasu yn cydweithio i godi arian i nifer o elusennau, yn cynnwys Cymdeithas Gofal Ceredigion, Stonewall ac Ymddiriedolaeth Canser i Bobl yn eu Harddegau. Ymlith y digwyddiadau codi arian roedd marathon chwarae gemau cyfrifiadurol am 24 awr, ocsiynau citiau chwaraeon, rasys hwyl, cystadlaethau coginio a 'beicio'r pellter cyfatebol i Fynydd Eferest mewn diwrnod'. Y swm a godwyd hyd yma yw £16,248.

Enillwyd sawl 'achos' academaidd eleni; ni fydd myfyrwyr bellach yn cael eu rhwystro rhag graddio oherwydd dyledion anacademaidd, mae Siarter Cyflogi Uwchraddedigion bellach ar gael, mae Llyfrgell Thomas Parry wedi ymestyn ei horiau agor ac mae tîm *University Challenge* Aberystwyth wedi cyrraedd y cyfweliadau.

Rydym newydd gyflwyno Cerdyn Teyrngarwch Cwtch, felly ar gyfer pob deg diod a brynwch yn Starbucks yn y Cwtch, mi gewch un am ddim. Codwch eich cerdyn o gownter Starbucks nawr.

Wrth inni edrych ymlaen, bydd cyfnod enwebiadau Etholiadau'r Gwanwyn yn rhedeg rhwng 11 Ionawr a 5 Chwefror ac, yn dilyn wythnos o ymgyrchu, bydd y myfyrwyr yn penderfynu pwy fydd yn eu cynrychioli yn ystod 2016-2017. Cyhoeddir y canlyniadau yn ystod Noson Canlyniadau'r Etholiad yn Undeb y Myfyrwyr ar 18 Chwefror.

Rydym bellach wrthi'n brysur yn cynllunio'r Ddawns Haf a fydd yn cael ei chynnal ar 6 Mai, penwythnos llawn o rygbi 7s Aber ar 30 Ebrill-1 Mai ac esgus perffaith i estyn am eich dillad gorau ar gyfer y Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr ar 22 Ebrill.

Dyna grynodeb cyflym iawn o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn academaidd hyd yma a'r hyn sydd ar y gweill yn Undeb y Myfyrwyr yn y semester sydd i ddod. Cadwch lygad ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y wybodaeth ddiweddaraf - www.umaber.co.uk

**Eleri Wyn**, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu UM Prifysgol Aberystwyth




*Marathon chwarae gemau cyfrifiadurol am 24 awr RAG, Tachwedd 2015*

ERTHYGL NODWEDD

## Cefndir

Cyflwynwyd ymgyrch newydd y Brifysgol i fyfyrwyr, *Rho Wybod Nawr*, ar ddechrau blwyddyn academaidd 2015/16. Noddwyd y prosiect gan Yr Athro John Grattan (Is-Ganghellor Dros Dro) ac mae'n cael ei arwain gan dîm prosiect o dan gadeiryddiaeth Tim Davies (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth).

Cynlluniwyd *Rho Wybod Nawr* i gyfoethogi profiad y myfyriwr yma yn Aberystwyth, gan osod llais y myfyriwr wrth galon cynlluniau'r Brifysgol i gyflawni llwyddiant i fyfyrwyr.

Mae *Rho Wybod Nawr* yn hwyluso sgwrs barhaus gyda myfyrwyr drwy amrywiaeth o weithgareddau ar draws sianeli traddodiadol a digidol. Y nod allweddol yw darparu llwyfannau a fydd yn ein helpu i annog ein myfyrwyr i gydweithio gyda ni i wella eu profiad myfyriwr.

## Sut mae *Rho Wybod Nawr* yn helpu?

Beth bynnag rydych chi'n ei wneud ac ym mha ran bynnag o'r Brifysgol rydych chi'n gweithio, rydych chi'n cyfrannu at brofiad y myfyriwr yn Aberystwyth.

Bydd yr hyn a ddysgwn drwy *Rho Wybod Nawr* yn ein helpu ni i ddeall, adfyfyrio a chyflwyno gwelliannau er mwyn sicrhau bod profiad y myfyriwr yn Aber y gorau y gall fod.

Mae *Rho Wybod Nawr* eisoes yn galluogi adrannau i ddynodi meysydd ymarfer gorau ac amlygu profiad cadarnhaol myfyrwyr, yn ogystal â'u harfogi i fynd i'r afael ar unwaith ag unrhyw arwyddion nad yw myfyrwyr yn derbyn addysgu ac adborth, ynghyd â chymorth academaidd a phersonol o'r ansawdd uchaf.

## Beth ddywedodd ein myfyrwyr wrthym ni?

Yn ystod y semester diwethaf cwblhaodd ein myfyrwyr filoedd o arolygon dros yn agos i bedwar cant o fodiwlau ar draws y Brifysgol. Maent hefyd wedi cwblhau arolwg ar-lein sy'n canolbwyntio ar asesu ac adborth.

Mae nifer o sylwadau eang hefyd wedi cael eu derbyn drwy e-bost a ffurflen gwe.

## Beth ydyn ni wedi'i wneud gyda'r wybodaeth hon?

Rydyn ni wedi lansio ymgyrch *Fe Ddwedsoch chi, Fe Wnaethon ni* i amlygu'r newidiadau a gwelliannau rydyn ni wedi'u gwneud i brofiad y myfyriwr yn Aber o ganlyniad uniongyrchol i adborth a gafwyd drwy *Rho Wybod Nawr*.

Hyd yma cafwyd dros hanner cant o gamau gweithredu *Fe Ddwedsoch chi, Fe Wnaethon ni*.

Fe welwch chi bosteri *Fe Ddwedsoch chi, Fe Wnaethon ni* ar draws y campws - mewn adrannau, llyfrgelloedd a gofodau cyhoeddus eraill, yn ogystal ag ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan.

Bydd ymgyrch posteri cyfredol *Fe Ddwedsoch chi, Fe Wnaethon ni* yn parhau tan fis Ebrill 2016.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:
www.aber.ac.uk/cy/student/tell-us-now/you-said-we-did/

## Beth sydd wedi newid yn sgil *Rho Wybod Nawr*?

Mae'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud hyd yma o ganlyniad i *Rho Wybod Nawr* yn cynnwys:

| Fe Ddwedsoch chi | Fe Wnaethon ni |
|---|---|
| Roeddech chi am ddefnyddio'r llyfrgell ar unrhyw adeg – ddydd neu nos. | Mae llyfrgell Hugh Owen bellach ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos yn ystod y tymor. Rydym hefyd yn cynyddu oriau agor Llyfrgell Thomas Parry. |
| Roeddech chi am gyflwyno eich gwaith yn electronig a derbyn adborth amserol, o safon. | Rydym wedi datblygu systemau e-gyflwyno ac e-adborth fel gall adrannau barhau i gyflwyno adborth ar fodiwlau israddedig o fewn 15 diwrnod gwaith. |
| Roeddech chi am gael mwy o ddarlithoedd wedi'u recordio. | Mae cynnydd o 45% wedi bod yn nifer y darlithoedd a recordiwyd yn semester 1. O fis Medi 2016 bydd pob darlith yn cael ei recordio. |
| Roeddech yn fodlon ar y system presenoldeb electronig gan nad oedd rhaid i chi aros i lofnodi cofrestr bapur. | Gosodwyd darllenwyr Cerdyn Aber bellach ym mhob ystafell addysgu sydd ar yr amserlen ganolog ar draws y Brifysgol, a byddan nhw'n cael eu gosod mewn rhagor o ystafelloedd dros y flwyddyn nesaf. |
| **Adran Seicoleg**<br>Fe ofynnoch chi am ystafell gyffredin | Bydd ystafell gyffredin i fyfyrwyr ar gael yn 2016 â pheiriant gwerthu bwyd/diod yno ar gyfer myfyrwyr a staff. |
| **Yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**<br>Gofynnoch chi am fannau i gwrdd yn anffurfiol â myfyrwyr eraill yn yr adran | Rydym wedi gweithio ar ardaloedd o Adeilad Hugh Owen yn ystod y tymor gyda'r bwriad o atgyfnerthu'r ffaith y gall myfyrwyr gyfarfod yn anffurfiol yn eu hadrannau ar gyfer lluniaeth; i drafod materion â staff a chyfoedion, neu i gael rhywfaint o amser tawel gyda llyfr a phaned. |
| **Ysgol Rheolaeth a Busnes**<br>Fe ofynnoch chi a fyddai eich amserlen yn caniatáu i chi fynychu gweddi Dydd Gwener yn y mosg yn Aberystwyth | Gallwn ad-drefnu slotiau grŵp tiwtorial lle bo hynny'n bosibl. Hefyd mae ystafell weddi drws agored ar gampws Llanbadarn, uwchben Blas Padarn. |
| **Adran Ffiseg**<br>Nid oedd digon o werslyfrau i'w cael ar gyfer modiwl blwyddyn olaf | Rydym wedi trafod hyn gyda Gwasanaethau Gwybodaeth a bydd staff yn sicrhau bod mwy o lyfrau ar gael trwy gyfnodau benthyca byrrach a thrwy archebu rhagor o gopïau o destunau allweddol. |

## Penodiadau Newydd

Mae pedwar ar bymtheg o fyfyrwyr wedi'u cyflogi drwy Aber ar Alw i weithio ar brosiect *Rho Wybod Nawr*. Mae eu rôl yn cynnwys mynychu darlithoedd i gyflwyno *Rho Wybod Nawr* a dosbarthu a chasglu arolygon; sganio arolygon papur a theipio sylwadau a ysgrifennwyd â llaw; a chasglu a dosbarthu data.

Rydym ni hefyd yn croesawu dau aelod newydd o staff i'r prosiect.




Penodwyd **Faye ap Geraint** yn Rheolwr Prosiect *Rho Wybod Nawr* o fis Ionawr 2016.

Eglura Faye: "Ein blaenoriaeth yw cynyddu boddhad myfyrwyr drwy fynd i'r afael ag unrhyw arwyddion cynnar nad yw myfyrwyr yn derbyn y profiad prifysgol gorau bosibl yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol. Fi sy'n gyfrifol am reoli, cefnogi, cynllunio a chyflenwi Prosiect *Rho Wybod Nawr*."

Graddiodd Faye o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd BA Anrhydedd mewn Astudiaethau Plentyndod yn 2012. Cyn mynd i'r brifysgol roedd yn berchennog busnes bach yn cyflogi nifer o bobl yn y sector gwerthiant a gwasanaethau cwsmer. Ymunodd â Phrifysgol Aberystwyth yn 2013 ac mae wedi gweithio mewn nifer o adrannau gan gynnwys y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion fel hyfforddai graddedig, Cymorth Myfyrwyr fel rheolwr datblygu busnes, rheolwr prosiect a rheolwr gofal plant ym meithrinfa'r Brifysgol.

"Rwyf i'n edrych ymlaen at wreiddio a chreu cyswllt rhwng yr holl randdeiliaid ac ymgyrch *Rho Wybod Nawr*. Cadwch lygad yn agored am gyfres o gyfarfodydd pan fydd rhanddeiliaid yn cael gwahoddiad i gyfrannu at ymgyrch *Rho Wybod Nawr* a rhannu ymarfer gorau," dywed Faye.



Ymunodd **Ryan Owens** â thîm *Rho Wybod Nawr* ar interniaeth graddedig ym mis Hydref 2015.

Eglura Ryan: "O fewn wythnos roeddwn i'n rheoli trefniadau cyflenwi'r arolygon, yn cydlynu'r gwaith gydag arolygon modiwl ac yn rheoli arolygon oedd wedi'u haildrefnu a'u postio. Roeddwn i hefyd yn gyfrifol am grynhoi'r adroddiadau ar sail data a chyflenwi'r wybodaeth hon i'r aelodau perthnasol o staff.

"Y tu hwnt i gyfnod yr arolygon, mae fy swydd yn cynnwys cefnogi'r prosiect lle bo angen a rhoi syniadau newydd y tîm ar waith lle bo'n bosib."

Ar ôl graddio mewn Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff yn 2015, gwirfoddolodd Ryan yn Villa Park yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd, gan helpu i weithredu a chynnal a chadw amrywiol elfennau technolegol.

Mae Faye a Ryan yn rhan o'r Uned Rheoli Prosiect a Newid yn yr Adeilad Delweddu. Cyfeiriad e-bost Faye yw faa4@aber.ac.uk, a chyfeiriad Ryan's yw ryo2@aber.ac.uk.



*Gweithdy adborth Rho Wybod Nawr*

## Adborth ar *Rho Wybod Nawr*

*"Mae Undeb y Myfyrwyr yn hapus iawn gyda menter Rho Wybod Nawr a'r cynnydd sydd wedi'i wneud mewn cyfnod mor fyr, yn enwedig yr holl newidiadau cadarnhaol sydd wedi'u gwneud yn sgil adborth gan fyfyrwyr. Mae llais y myfyrwyr yn hollbwysig, ac mae Rho Wybod Nawr yn sicrhau ei fod yn cael ei glywed ar draws y Brifysgol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r canfyddiad o Rho Wybod Nawr ac o waith y tîm hyd yma yn gadarnhaol iawn ymhlith myfyrwyr, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr i weld sut y bydd hyn yn datblygu yn y dyfodol."*

**Lauren Marks, Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr**

*"Fel gydag unrhyw brosiect mawr newydd, cafwyd rhai trafferthion bach i'w sortio. Mae tîm Rho Wybod Nawr yn hynod o ddiolchgar am adborth gan staff academaidd a thimau gweinyddol yr adrannau ynghylch cael y gorau o'r arolwg gwerthuso modiwlau yn benodol a byddwn yn symud ymlaen gyda'r awgrymiadau."*

**Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio**

*"Rwyf i wedi cael argraff dda iawn o'r ffordd mae gwerthusiadau modiwl Rho Wybod Nawr wedi gweithio hyd yma ar fy modiwl i. Ni achosodd yr ymweliad fawr o aflonyddwch, ac roedd y cynorthwywyr o blith y myfyrwyr yn gwrtais a threfnus. Cefais yr adborth o fewn 6 awr (!) ac mae'r ffordd mae'r data wedi'i osod yn glir a chydlynol."*

**Aelod o staff academaidd**

**Rhagor o wybodaeth**

I gael rhagor o wybodaeth am *Rho Wybod Nawr*, ewch i: www.aber.ac.uk/cy/student/tell-us-now/ neu gwyliwch yr animeiddiad: www.youtube.com/watch?v=n72AJh-dn-E



Golwg ar…

# y Gwasanaeth Gyrfaoedd

Cenhadaeth Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol yw helpu ein myfyrwyr a'n graddedigion i wireddu eu dyheadau, gwneud dewisiadau bywyd gwybodus a chyflawni eu potensial. I glywed rhagor am eu gwaith aethom i sgwrsio â Siân Furlong-Davies.

**Beth mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn ei wneud?**
Prif swyddogaeth y Gwasanaeth Gyrfaoedd yw helpu ein myfyrwyr i gynllunio a pharatoi ar gyfer eu hopsiynau gyrfa yn y dyfodol ar ôl iddyn nhw raddio.

Ein rôl yw cynorthwyo ein myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau rheoli gyrfa sydd eu hangen i'w galluogi i wneud penderfyniadau gyrfa nawr ac yn y dyfodol.

Mae ein gwaith yr un mor berthnasol i bob myfyriwr beth bynnag eu bwriadau yn y dyfodol (astudiaethau pellach, blwyddyn i ffwrdd neu chwilio am swydd) gan ein bod yn canolbwyntio ar helpu myfyrwyr i ddeall ac adnabod y galluoedd sydd ganddyn nhw i'w cynnig a sut y gall y rheini fod yn berthnasol mewn rolau yn y dyfodol.

Heb gefnogaeth ein cydweithwyr academaidd ac yn y gwasanaethau proffesiynol, fydden ni ddim yn gallu gweithredu'n effeithiol, felly mae datblygu ein perthynas gyda chydweithwyr hefyd yn elfen hanfodol yn ein gwaith

**Sut mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd wedi newid yn ddiweddar?**
Fel adran rydyn ni nawr yn dechrau ar gyfnod cyffrous iawn gan ein bod ni yn y sefyllfa ffodus o fod wedi sicrhau cyllid ychwanegol oddi wrth y Brifysgol i gynyddu nifer ein staff yn eithaf sylweddol.

Mae hyn wedi golygu ein bod ni nawr yn gallu canolbwyntio ein gweithgareddau o'r newydd a chynnig gwasanaeth dwysach i'n Hathrofeydd academaidd. Gyda phenodi Ymgynghorydd Gyrfaoedd penodol fydd yn gyfrifol am ganolbwyntio ar Athrofa benodol, mae cyfle nawr i ni weithio'n llawer mwy cydlynol gyda chydweithwyr academaidd i'w cynorthwyo i gyflawni eu Cynlluniau Gweithredu Cyflogadwyedd penodol i'w Hathrofa a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd wedi'u gosod i bob un.

Mae cynnydd yn ein Tîm Cyswllt Cyflogwyr hefyd wedi golygu bod prosiect AberYmlaen wedi'i drosglwyddo i'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ei weinyddu, sy'n ddatblygiad rhagorol sydd bellach yn caniatáu i ni gynnig amrywiaeth ehangach o gyfleodd profiad gwaith i'n myfyrwyr.

Yn ogystal, mae datblygu Aber Ar Alw'n cynnig cyfleoedd ehangach i fyfyrwyr bob dydd. Er ei fod yn dal i fod yn ei gyfnod peilot rydyn ni'n rhagweld y byddwn yn gallu datblygu hyn dros y misoedd nesaf i baratoi ar gyfer amrywiaeth ehangach o opsiynau yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Gyda'n gwasanaethau llinell flaen yn cael eu cyflenwi o'n swyddfa gyhoeddus yn adeilad hygyrch Undeb y Myfyrwyr, amrywiaeth ehangach o ddarpariaeth profiad gwaith, cyfraniadau cynyddol gan gyflogwyr a chyn-fyfyrwyr sy'n cynnig gweithdai a mentora, a'n gallu cynyddol i fod yn fwy gweithredol yn yr Athrofeydd, rydyn ni'n edrych ymlaen at gynyddu ein cyswllt â'r myfyrwyr a'n cydweithwyr ar draws y Brifysgol.

**Beth yw'r camsyniadau cyffredin sydd gan bobl am waith y Gwasanaeth Gyrfaoedd?**
Camsyniad cyffredin ymhlith myfyrwyr yw eu bod yn gallu aros tan wythnos olaf eu blwyddyn olaf cyn cysylltu â ni neu feddwl am eu cynlluniau at y dyfodol. Mae'n gwaith ni'n fwy na chael myfyriwr i ddewis swydd a llenwi ffurflen gais a llunio CV yn unig. Mae'n ymwneud â chael myfyrwyr i ddatblygu cynifer o sgiliau a phrofiadau â phosibl ac, yn bwysicach, adnabod yr amrywiaeth eang o sgiliau sydd ganddyn nhw a sut mae modd trosglwyddo'r rhain i weithgareddau eraill ac agweddau eraill o'u bywydau a'u meysydd gyrfa posibl. Mae hyn yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn gyntaf!

Camsyniad cyffredin arall ymhlith myfyrwyr yw bod angen iddyn nhw wybod yn union beth maen nhw am ei wneud fel swydd cyn iddyn nhw ddod i'n gweld ni. Rydyn ni'n cydweithio gyda myfyrwyr ar draws sbectrwm cyfan parodrwydd am yrfa, o'r rhai sydd heb unrhyw syniad i'r rhai sydd wedi creu cynllun pendant - mae ffyrdd y gallwn ni helpu pawb a chynnig syniadau neu awgrymiadau newydd ar y ffordd ymlaen.

**Beth sydd ar y gorwel i'r Gwasanaeth Gyrfaoedd?**
Mae'n gyfnod cyffrous iawn i ni ar hyn o bryd. Rydyn ni'n edrych ymlaen at gyflwyno proses newydd fydd yn caniatáu i ni weld pa mor barod yw'n myfyrwyr ar gyfer gyrfa wrth iddyn nhw gofrestru bob blwyddyn er mwyn i ni allu teilwra ein gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion yn well, a hefyd gallu dilyn eu datblygiad ac asesu effaith ein gwasanaethau a'n gweithgareddau.

Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu cyfleoedd profiad gwaith unigol i'n myfyrwyr uwchraddedig drwy'r cynllun AberYmlaen fydd hefyd yn harneisio'r cyfleoedd sydd ar gael ar draws y gymuned gyda'n cyflogwyr lleol.

Mae rôl yr Ymgynghorwyr Gyrfaoedd sy'n canolbwyntio ar Athrofeydd nawr yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau wedi'u teilwra'n well o lawer i bob un o'n hadrannau ac yn caniatáu i ni edrych ar ddulliau mwy effeithiol o gydweithio gyda chydweithwyr academaidd er budd ein myfyrwyr.

## Proffil Personol – Siân Furlong Davies

**Cyfarwyddwraig Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol**



**Soniwch ychydig amdanoch eich hun**
Graddiais o Brifysgol Abertawe (sori!) gyda gradd mewn Daearyddiaeth, pwnc oedd wrth fy modd i, ac rwy'n dal yn hoff iawn ohono oherwydd ei holl amrywiaeth. Ar ôl cyfnod ym maes Rheoli Adwerthu dechreuais i ym maes gyrfaoedd ar hap, datblygiad ffodus sydd wedi sicrhau yn agos i 30 o flynyddoedd o waith difyr i fi ym maes llywio gyrfaoedd mewn gwahanol rolau.

Ar ôl gweithio dramor am 6 blynedd, roeddwn yn ffodus i gael cynnig swydd Ymgynghorydd Gyrfaoedd a Rhyngwladol Dwyieithog yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, oedd yn swydd ddiddorol a heriol oedd yn golygu bod rhaid i fi weithredu fel Swyddog Rhyngwladol am 2.5 diwrnod yr wythnos ac Ymgynghorydd Gyrfaoedd am y gweddill – dipyn o waith jyglo gyda theithio tramor hefyd yn rhan o'r gymysgfa!

**Disgrifiwch ddiwrnod nodweddiadol yn y Swyddfa Gyrfaoedd**
Does dim y fath beth i aelodau unigol o staff, gan fod y gwaith mor amrywiol. Serch hynny, mae rhai gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gennym ni'n ddyddiol fel ein swyddfa gyhoeddus llinell flaen, ein gwasanaethau galw heibio a'n cyfweliadau arweiniad. Yn ogystal â'r gweithgareddau craidd hyn ceir amrywiaeth o weithgareddau dan arweiniad cyflogwyr, gweithdai, cyfarfodydd, cynllunio digwyddiadau, datblygu adnoddau a gweithgareddau hyrwyddo sy'n ychwanegu at bob swydd i'w gwneud yn amrywiol bob dydd.

**Pa elfen o'r swydd sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi?**
Rwy'n mwynhau'r agwedd cynllunio strategol a threfnu yn y swydd. Rwyf i hefyd yn cael boddhad mawr o dynnu ystadegau at ei gilydd a gweithio ar gyllidebau a chyllid.

**Beth ydych chi'n mwynhau ei wneud yn eich amser sbâr?**
Rwy'n mwynhau marchogaeth a hwylio, ond hwylio yn ystod misoedd yr haf yn unig, neu mae'n rhy oer! Ond mae adnewyddu tŷ wedi mynd â phob munud sbâr o fy mywyd dros y misoedd diwethaf, gan ei fod yn creu llawer mwy o lanast ac yn cymryd llawer mwy o amser na'r disgwyl.

## Pwy yw Pwy yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd

**Siân Furlong-Davies**
Cyfarwyddwraig
E-bost: ssd@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 622378

**TÎM RHENG FLAEN**

**Sue Evans**
Rheolwraig Cyflogadwyedd Myfyrwyr
E-bost: sej@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 622376

**Carys Mleczek**
Rheolwraig Cyflogadwyedd Myfyrwyr
E-bost: csm@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 622378

**TÎM CYSWLLT CYFLOGWYR**

**Gwen Adams**
Rheolwraig Cyflogadwyedd
*Y rôl yn cynnwys cyfrifoldebau AberYmlaen ac Aber Ar Alw*
E-bost: gwa3@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 621536

**Jacqui Ho**
Swyddog Cydlynu â Chyflogwyr
E-bost: jah30@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 628670

**Ben Jones**
Swyddog Lleoliadau
*Y rôl yn cynnwys cyfrifoldebau AberYmlaen ac Aber Ar Alw*
E-bost: bej13@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 628678

**TÎM GO WALES**

**Lewis Richards**
Rheolwr Strategol GO Wales
E-bost: lhr@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 622099

**Christina Evans**
Ymgynghorydd Datblygu GO Wales
E-bost: cre@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 628509

**TÎM YMGYNGHORYDD GYRFAOEDD**

**James Cuffe**
Ymgynghorydd Gyrfaoedd – IBERS
E-bost: jpc11@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 622378

**Beverley Herring**
Ymgynghorydd Gyrfaoedd – IEGPD
E-bost: bch@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 622378

**Joanne Hiatt**
Ymgynghorydd Gyrfaoedd - ALIICC
E-bost: jeb@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 622378

**Morwenna Jeffery**
Ymgynghorydd Gyrfaoedd – IMPACS
E-bost: mrj11@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 622378

**Anna McAdam**
Ymgynghorydd Gyrfaoedd - ADHGS
E-bost: anm43@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 622378

**Tony Orme**
Ymgynghorydd Gyrfaoedd– IMLIS
E-bost: awo@aber.ac.uk
Ffôn: (01970) 622378



*Chwith i'r dde. Rhes flaen: James Cuffe, Carys Mleczek, Joanne Hiatt, Lewis Richards, Siân Furlong-Davies*

*Rhes ganol: Tony Orme, Anna McAdam, Sue Evans, Beverley Herring, Morwenna Jeffery, Christina Evans, Jacqui Ho*

*Rhes gefn: Ben Jones, Chris Grattan (AberYmlaen), Gwen Adams*

# Rhaglen Ddatblygu Springboard

Ddiwedd mis Ionawr, cychwynnodd pum aelod ar hugain o'r staff o'r adrannau academaidd a'r gwasanaethau proffesiynol ar Raglen Ddatblygu Springboard sy'n cael ei darparu'n fewnol.

Mae Springboard yn gynllun sydd wedi ennill gwobrau; mae'n cynnig hyfforddiant i fenywod o bob oedran a chefndir sy'n gobeithio mynd ymlaen i wneud swyddi rheoli ac arwain. Mae'n ymdrin yn benodol â materion sy'n wynebu menywod, a'i nod yw ysbrydoli menywod a'u grymuso i wireddu eu hamcanion a'u huchelgais.

Cynhelir Rhaglen Ddatblygu Springboard 2016 gan Joy Arkley o adran Adnoddau Dynol y Brifysgol, sydd yn Hyfforddwraig Springboard Drwyddedig ar ei Liwt ei Hun. Ymhlith y siaradwyr gwadd mae'r Is-Ganghellor, Jackie Sayce (Rheolwr Athrofa Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg), Sue Chambers (Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol) a Jane Davidson (Dirprwy Is-Ganghellor Cyswllt a Chyfarwyddwr Athrofa INSPIRE {Sefydliad Ymarfer Cynaliadwyedd, Arloesi ac Effeithlonrwydd Adnoddau} ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant).

# Cynllun Pensiwn y Prifysgolion

Bydd Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) yn newid o 1 Ebrill 2016.

Ar hyn o bryd mae'r cynllun yn cynnig dau fath o bensiwn â buddion wedi'u diffinio: Cyflog Terfynol (FS), a Buddion wedi'u Hailbrisio (CRB). Mae'r ddau gynllun yn cynnig pensiwn sy'n gysylltiedig â chyflog, ond mewn ffyrdd gwahanol.

Yn y dyfodol, bydd Cynllun Pensiwn y Prifysgolion yn darparu pensiynau buddion wedi'u hailbrisio ar sail CRB yn unig. Bydd cyfle hefyd i'r aelodau i gronni cyfraniadau pensiwn hyblyg ychwanegol ar ffurf cyfrif cyfraniadau diffiniedig unigol.

Caiff y newidiadau hyn eu cyflwyno fesul cam o 1 Ebrill 2016, a byddant yn effeithio ar bawb sydd eisoes yn aelod, yn ogystal â'r rhai sy'n ymuno â'r cynllun yn y dyfodol.

I gael gwybod mwy am strwythur y cynllun newydd, ewch i https://forthefuture.uss.co.uk/member-area neu cysylltwch â Martin Davies (mad@aber.ac.uk), neu Beth Head (myh@aber.ac.uk) yn y Swyddfa Gyflogau.

# Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

Dathlir Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 8 Mawrth bob blwyddyn. Y llynedd, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau yn y Brifysgol i nodi'r achlysur, gan gynnwys darlith gan y Farwnes Kay Andrews OBE, gwylnos dawel, a chyflwyniad gan Bennaeth y Swyddfa Gartref.


Yn unol â'r traddodiad, mae'r Brifysgol yn awyddus i gynnal wythnos o ddigwyddiadau o 7-11 Mawrth 2016 i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Os hoffech chi neu eich cydweithwyr gymryd rhan, cysylltwch â Ruth Fowler, Swyddog Adnoddau Dynol (ruf@aber.ac.uk) cyn gynted â phosib â'ch syniadau, a chyflwyno cynlluniau terfynol erbyn 22 Chwefror.

# Gweithdai Ymwybyddiaeth Trawsrywedd

Daeth 30 o staff o bob rhan o'r Brifysgol i weithdai ar Ymwybyddiaeth Trawsrywedd a gynhaliwyd ar 18 a 19 Ionawr.

Amcangyfrifir bod 1% o'r boblogaeth yn dod o fewn sbectrwm eang trawsrywedd, ac felly mae staff prifysgolion bron yn sicr o ddod i gysylltiad ag ystod o wahanol bobl a myfyrwyr trawsryweddol yn eu gwaith proffesiynol.

Yn y cwrs 'Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth Trawsrywedd', a ddarparwyd gan y cwmni nid-er-elw *Gendered Intelligence*, cyflwynwyd y wybodaeth allweddol sydd ei hangen ar bobl er mwyn gweithio gyda phobl ifanc drawsryweddol, neu gynorthwyo cydweithwyr trawsryweddol. Bu'r gweithdai'n trafod materion ynghylch cynnwys pobl drawsryweddol a thrawsrywiol, ailbennu rhywedd, amrywioldeb rhyweddol, a'r hawliau a'r cyfrifioldebau cysylltiedig â hunaniaethau trawsryweddol.




# AURORA

Bydd saith aelod benywaidd o'r staff yn cwblhau rhaglen nesaf AURORA a gynhelir yn Birmingham ddechrau mis Chwefror. IBERS sy'n noddi pump ohonynt.

Lansiwyd *Aurora* yn 2013, yn gynllun datblygu arweinyddiaeth i fenywod yn unig.

Mae'r rhan fwyaf o raglenni arweinyddiaeth wedi eu hanelu at arweinwyr a rheolwyr sydd eisoes mewn swyddi o'r fath, ond bwriad *Aurora* yw galluogi amrywiaeth eang o fenywod mewn swyddi academaidd a phroffesiynol mewn addysg uwch i fanteisio ar hyfforddiant datblygu arweinyddiaeth yn gynt yn eu gyrfaoedd.

Mae Aurora yn cynnig cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan feddwl amdanynt eu hunain fel arweinwyr y dyfodol, a datblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt, a helpu eu sefydliadau i wneud y defnydd gorau o'r sgiliau y maent yn eu dysgu.

POBL ABER

# Dyrchafiadau Academaidd 2015

Llongyfarchion i aelodau canlynol y staff academaidd a ddyrchafwyd yn dilyn cwblhau'r broses Dyrchafiadau Academaidd 2015:

### Dyrchafwyd y canlynol yn Athrawon:



Yr Athro Ian Armstead,
*IBERS*



Yr Athro Judith Broady-Preston,
*Astudiaethau Gwybodaeth*



Yr Athro Colin Cruise,
*Yr Ysgol Gelf*



Yr Athro Glyn Jenkins,
*IBERS*




Yr Athro Paul Brewer,
*Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear*



Yr Athro John Clifton-Brown,
*IBERS*



Yr Athro Joanne Hamilton,
*IBERS*




Yr Athro Helen Roberts,
*Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear*

### Dyrchafwyd y canlynol i swydd Darllenydd:



Dr Peter Bunting,
*Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear*



Dr Alistair Finlan,
*Gwleidyddiaeth Ryngwladol*



Dr Catherine Howarth,
*IBERS*



Dr Leif Skøt,
*IBERS*



Dr Daniel Burgarth,
*Mathemateg*



Dr Allen Foster,
*Astudiaethau Gwybodaeth*



Dr Anwen Jones,
*Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu*



Dr Bernard Tiddeman,
*Cyfrifiadureg*



Dr Anwen Elias,
*Gwleidyddiaeth Ryngwladol*



Dr Ayla Göl,
*Gwleidyddiaeth Ryngwladol*



Dr Alison Kingston-Smith,
*IBERS*



Dr Rattan Yadav,
*IBERS*

### Dyrchafwyd y canlynol i swydd Uwch Ddarlithydd:

Dr Natasha Alden,
Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
Dr Rosemary Cann, Addysg a Dysgu Gydol Oes
Dr Amanda Clare, Cyfrifiadureg
Dr Rosemary Collins, IBERS
Mr Prysor Davies, Addysg a Dysgu Gydol Oes
Dr Arwyn Edwards, IBERS
Dr Kate Egan,
Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

Dr Hywel Griffiths,
Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
Dr Jesse Heley,
Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
Dr Gareth Hoskins,
Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
Dr Lin Huang, IBERS
Dr Catrin Huws, Y Gyfraith a Throseddeg
Dr Sharon Huws, IBERS

Dr Tristram Irvine-Fynn,
Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
Dr Elizabeth New, Hanes a Hanes Cymru
Dr Rachel Rahman, Seicoleg
Dr Gancho Slavov, IBERS

POBL ABER

# Trefn Dyrchafiadau, Gwobrwyo a Chydnabod 2016

Cyhoeddwyd yr amserlen ar gyfer y broses Dyrchafiadau Academaidd ar gyfer 2016 yn ddiweddar.

*Amserlen trefn dyrchafiadau i Uwch-Ddarlithydd, Darllenydd a Chadair ar gyfer 2016 yw:*

**25 Ionawr 2016** - Cyfnod datgan eich bwriad i gyflwyno cais yn agor.

**15 Chwefror 2016** - Dyddiad cau i aelodau o staff ddatgan bwriad i gyflwyno cais.

**4 Mawrth 2016** - Rhaid pennu pob mentor erbyn y dyddiad hwn.

**10 Awst 2016** - Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau.

**11-26 Awst 2016** - Cyfarwyddwyr yr Athrofeydd i gymeradwyo cynigion y Penaethiaid Adran ar gyfer geirdaon ac enwau aseswyr allanol.

**29 Awst – 21 Hydref 2016** - Rhaid cael pob geirda ac adroddiad asesydd a dosbarthu'r ceisiadau i aelodau'r panel.

**Tachwedd 2016** - Panel Dyrchafiadau Academaidd yn cwrdd.

Dylai aelodau o staff sydd eisiau datgan eu bwriad i gyflwyno cais am Uwch-Ddarlithyddiaeth, Darllenyddiaeth neu Gadair yn 2016 anfon e-bost i academic-promotions@aber.ac.uk erbyn 15 Chwefror 2016.

Os oes gennych gwestiwn yn ymwneud â'r drefn hon, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Gweithwyr ar academic-promotions@aber.ac.uk


I gael rhagor o wybodaeth ewch i: http://www.aber.ac.uk/cy/hr/reward-and-recognition/academic-promotions/

# Pendiadau

### ADRAN DAEARYDDIAETH A GWYDDORAU DAEAR



Penodwyd **Dr Marie Busfield** yn ddarlithydd mewn Gwyddor Amgylcheddol. Daw'r penodiad hwn yn dilyn ail-lansio cynllun gradd Gwyddor Amgylcheddol yr Adran, a buddsoddiad parhaus gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae diddordebau ymchwil Dr Busfield mewn rhewlifiad hynafol, gwaddoleg a newid palaeohinsoddol, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr oes iâ Neoproterosoig ('Daear Pêl Eira').



Penodwyd **Dr Taulant Guma** yn Gydymaith Ymchwil Ôl-ddoethurol i weithio fel rhan o Ganolfan Ymchwil WISERD/Cymdeithas Sifil yr ESRC, yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Cwblhaodd Dr Guma PhD mewn Astudiaethau Canolbarth a Dwyrain Ewropeaidd yn 2015 ym Mhrifysgol Glasgow fel deiliad ysgoloriaeth ERC CASE. Hefyd mae ganddo BSc mewn Anthropoleg o Goleg y Brifysgol, Llundain, ac MSc a MRes mewn Astudiaethau Rwsiaidd, Canolbarth a Dwyrain Ewropeaidd o Brifysgol Glasgow.

### ADRAN SEICOLEG




Ymunodd **Dr Gil Greengross** â'r Brifysgol ym mis Hydref 2015 fel darlithydd yn yr Adran Seicoleg. Seicolegydd esblygol yw Dr Greengross sy'n ymchwilio i seicoleg hiwmor a chwerthin. Daw'n wreiddiol o Israel, a derbyniodd radd Baglor mewn seicoleg, anthropoleg a chymdeithaseg o Brifysgol Ben-Gurion. Enillodd radd Meistr mewn ystadegau a PhD mewn anthropoleg esblygol o Brifysgol New Mexico.

### YSGOL RHEOLAETH A BUSNES




Ymunodd **Dr Mohamed Saeudy** â'r Brifysgol fel darlithydd mewn Cyfrifyddu a Chyllid. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar archwilio sut y gall arferion cyfrifyddu a damcaniaethau cyllidol helpu busnesau i fod yn fwy cynaliadwy. Treuliodd Dr Saeudy nifer o flynyddoedd yn gweithio yn y diwydiant bancio yn yr Aifft a'r DU, ac mae wedi dal swyddi ymchwil ac addysgu ym Mhrifysgolion Derby, Northampton a Keele.

### ATHROFA'R GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG



Gyda graddau o Lerpwl(BSc) a Chaeredin, (PhD) ymgymerodd **Dr Sebastian McBride** â swydd ddarlithio yn Aberystwyth yn 1996 yn yr Athrofa Gwyddorau Gwledig fel yr oedd ar y pryd. Gadwodd yr Athrofa yn 2005 i ehangu ei ddiddordebau ymchwil mewn robotoeg wybyddol yn yr Adran Cyfrifiadureg (Aberystwyth) ac yna niwrowyddoniaeth wybyddol ym Mhrifysgol Caergrawnt. Mae'n dychwelyd i Brifysgol Aberystwyth i ymgymryd â swydd darlithydd yn y Gwyddorau Biolegol.




Penodwyd **Dr Federico Villagra** yn ddarlithydd mewn Seicoleg Ymarfer ac Iechyd. Ar ôl graddio mewn Gwyddorau Ymarfer o Universidad Politécnica de Madrid, cwblhaodd Dr Villagra MSc mewn Ffisioleg Ddynol a doethuriaeth ym Mhrifysgol Birmingham. Mae wedi dal swyddi ym Mhrifysgol Newcastle, Prifysgol Maryland, yr Ysgol Meddygaeth/Prifysgol Johns Hopkins yn Baltimore a'r Clinica Universidad Navarra yn Sbaen.



Ymunodd **Dr Andreas Foskolos** ag IBERS fel Cymrawd Ymchwil mewn Modelu Da Byw Cnoi Cil. Mae ei gefndir gwyddonol yn canolbwyntio ar anifeiliaid cnoi cil gyda phwyslais ar ffisioleg treulio, metaboledd maetholion a modelu maethol. Dyfarnwyd PhD iddo mewn Maeth Anifeiliaid o Brifysgol Autonomous Barcelona (Sbaen) yn 2012, a bu'n gweithio fel cydymaith ôl-ddoethurol ym Mhrifysgol Cornell (UDA).



Ymunodd **Dimitra Loka** ag IBERS fel Cymrawd Ymchwil mewn Gwyddor Planhigion. Graddiodd o Brifysgol Arkansas mewn ffisioleg planhigion, ac mae ymchwil Dimitra yn canolbwyntio ar effeithiau tyndra anfiotig ar ymatebion ffisiolegol planhigion.



Ymunodd **Dr Diego Moya** ag IBERS fel Cymrawd Ymchwil Rhyngddisgyblaethol mewn Gwyddorau Anifeiliaid. Ar ôl cwblhau ei DVM, MSc a PhD ym Mhrifysgol Autonomous Barcelona (Sbaen), bu'n gymrawd ôl-ddoethurol yn Agriculture and Agri-Food Canada. Mae ei ddiddordeb ymchwil yn cynnwys astudio ymddygiad, ffisioleg a metaboledd anifeiliaid i ddeall rhyngweithio anifeiliaid cnoi cil gyda'r amgylchedd cyfagos, yn ogystal â datblygu strategaethau rheoli newydd i gynyddu maeth, iechyd a llesiant anifeiliaid a sicrhau lefelau optimal o berfformiad.

## ADRAN MATHEMATEG



Ymunodd **Dr Matteo Dalla Riva** â'r Adran Mathemateg fel Cymrawd Ymchwil Marie Sklodowska-Curie. Graddiodd Matteo mewn Mathemateg o Brifysgol Padova yn yr Eidal lle dyfarnwyd iddo PhD hefyd. Mae wedi dal swyddi ôl-ddoethurol yn yr Eidal ac ym Mhortiwgal, yn gyntaf yn Porto ac yna yn Aveiro. Mae'n arbenigo mewn problemau aflonyddiad, hafaliadau differol rhannol, a dulliau integrol.

## CYHOEDDWR ADNODDAU ADDYSG

Penodwyd cyfarwyddwyr newydd i CAA (Cyhoeddwr Adnoddau Addysg) – **Delyth Ifan** yn Gyfarwyddwr a **Fflur Davies** yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol. Rhyngddynt, bu Delyth a Fflur yn gweithio fel Golygyddion a Rheolwyr Project i CAA ers bron i 25 mlynedd.




Graddiodd **Delyth** â BA (2:1 Anrhydedd) ac MPhil yn y Gymraeg o Goleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Bu'n gweithio yn adran llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac fel cyfieithydd cyn ymuno â thîm CAA yn 2002.



Enillodd **Fflur** radd BA (Anrhydedd) Dosbarth Cyntaf mewn Astudiaethau Cymru Fodern o Brifysgol Aberystwyth yn 2004, cyn dechrau gweithio i CAA yn yr un flwyddyn. Mae gan Fflur hefyd flynyddoedd o brofiad o weithio i'r cwmni ym maes cyhoeddusrwydd a marchnata.

## SWYDDFA DATBLYGU A CHYSYLLTIADAU ALUMNI



Penodwyd **Dylan Jones** yn Swyddog Cronfa Aberystwyth yn y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni. Mae'n ymuno o Pugh Computers Ltd, lle bu'n Gyfarwyddwr Marchnata a Datblygu Busnes. Mae Dylan yn raddedig o Aber, a daw a thros ddeng mlynedd o brofiad mewn marchnata strategol, cynllunio ymgyrchoedd ac adeiladu cysylltiadau i'r swydd.

## GWASANAETHAU GWYBODAETH



Penodwyd **Martin Taylor** yn Reolwr Casgliadau, Adnoddau a Chyfleusterau yn y Gwasanaethau Gwybodaeth ym mis Hydref 2015. Ymunodd Martin â ni o Brifysgol Wolverhampton lle bu'n gweithio fel Llyfrgellydd Cyfadran. Mae hefyd yn dod â phrofiad helaeth o reolaeth llyfrgellyddol yn y sector gyhoeddus ac yn y sector Addysg Bellach.

# Marwolaeth

### David Blumfield (1962-2015)



Roedd David Blumfield yn diwtor yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Yn wreiddiol o Birmingham, graddiodd David mewn Drama o Brifysgol Bangor yn 1990, a'r flwyddyn ganlynol symudodd i Aberystwyth.

Yn 1997, daeth David yn Gyfarwyddwr Artistig Castaway a ddaeth yn ddiweddarach yn gwmni theatr Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Parhaodd i gynhyrchu gwaith theatr rhagorol yn y gymuned gyda Castaway yng Nghanolfan y Celfyddydau.

Fel actor, rhoddodd David rhai o'r perfformiadau gorau a welwyd ar lwyfan Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, gan gynnwys ei ymddangosiadau mwyaf cofiadwy fel y dihiryn ym mhantomeim blynyddol y Wardens.

Penodwyd David i rôl Tiwtor yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn 2004 gan gyfarwyddo cynyrchiadau myfyrwyr o *Blood Wedding*, *The Play Dream*, *Road* a *The Balcony* i enwi dim ond rhai.

Roedd yn gefnogwr ffyddlon o West Bromwich Albion ac yn ffan o Alice Cooper, ac mi fydd llawer yn cofio'n gynnes amdano fel tiwtor, cyfarwyddwr, cyfaill a chydweithiwr.

Bu farw David Blumfield yn 53 oed, ar ôl salwch byr.

# Nid y gwaith arferol yn unig…

Ar ôl rhagor na 15 mlynedd yn Rheolwr Menter y Brifysgol, yn Ionawr ymunodd Tony Orme â thîm newydd o Ymgynghorwyr yng Ngwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol a fydd yn gweithio'n benodol yn Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth. Fodd bynnag, yn ychwanegol at y swydd honno, mae Tony yn gydberchennog busnes crochenwaith '*paint-your-own*' prysur, CRACKPOTS. Bu *Aber News* yn sgwrsio â Tony am redeg ei fusnes ei hun wrth weithio'n amser llawn yn ogystal.



Tony Orme a'i wraig, Cheryl

**Beth wnaeth i chi benderfynu sefydlu eich busnes crochenwaith 'paint-your-own'?**
Bu gan Cheryl, fy ngwraig ddiddordeb mewn crefftau erioed gan lunio llawer o waith crefft gartref. Ddeng mlynedd yn ôl fe fuon ni fel teulu yn paentio ychydig o grochenwaith mewn ffair grefftau yn East Anglia. Pan welson ni ganlyniadau ein hymdrechion roedden ni i gyd (ac yn arbennig Cheryl) yn awyddus i wneud rhagor. Fel hobi i'w dilyn gartref mae paentio crochenwaith yn afresymol o gostus gan ei bod yn rhaid cael odyn, ond yna fe gawson ni'r syniad o ymestyn yr hobi yn fusnes bach lleol ochr yn ochr â'n swyddi amser llawn.

**Beth mae rhedeg CRACKPOTS yn ei olygu?**
Rydyn ni'n cadw ystod o eitemau crochenwaith an-wydrog wedi eu rhagffurfio (powlenni, platiau, mygiau, blychau arian, ac ti) a byddwn yn mynd â'r rhain i Sefydliad y Merched, Clybiau Ffermwyr Ifanc, clybiau ieuenctid, partïon pen-blwydd a llawer o grwpiau eraill. Byddwn yn sôn am dechnegau paentio crochenwaith ac yn annog pobl i roi cynnig arni. Pan fyddwn yn dod â'r crochenwaith a baentiwyd gartref i Drefeglwys (ger Llanidloes) byddwn yn gwydro ac yn tanio'r eitemau yn yr odyn cyn eu parselu a'u rhoi'n ô i'r cwsmeriaid.

Yn y blynyddoedd diweddar rydyn ni wedi ymestyn i gynnig partïon llunio gemwaith enamlog a gwaith toriadau, ac mae hynny hefyd yn bur boblogaidd.

**Beth yw eich profiad o weithio i'r Brifysgol yn ogystal â rhedeg eich busnes eich hun.**
Gan fy mod i a Cheryl yn gweithio'n amser llawn rydyn ni'n tueddu i weithio ar CRACKPOTS gyda'r nos ac yn ystod y gwyliau ac ar benwythnosau. Fel rheol byddwn yn cynnal 3 neu 4 digwyddiad bob mis, ond bydd hynny'n cynyddu fel y bydd y Nadolig yn agosáu. Mae'r mwyafrif o ddigwyddiadau i Sefydliad y Merched, er enghraifft, yn cael eu cynnal fin nos mewn neuaddau pentref ym mhob rhan o Ogledd Powys. Byddwn yn llwytho'r car gyda phob peth angenrheidiol ar ôl cyrraedd adref o'r gwaith ac yna'n cychwyn i'r cyfarfod gan fwyta ein bwyd ar y ffordd. Byddwn yn gwneud llawer o waith gwydro, tanio a phacio yn ystod y penwythnos, a dyna hefyd pryd y byddwn yn gwneud gwaith marchnata a gweinyddu, megis anfonebu.

**Beth yw'r manteision?**
Trwy CRACKPOTS rydyn ni'n dod i adnabod llawer o gymunedau lleol ac mae'n hyfryd cael bod yn rhan o'r ymdeimlad o gyflawniad wrth weld cwsmeriaid o bob oed yn creu eu celfyddyd eu hunain.

**Beth yw'r anfanteision?**
Pan fyddwn ni'n llwytho crochenwaith a'r holl ddeunyddiau eraill i'r car ac yn gyrru am tuag awr ac yna'n canfod mai dim ond ychydig o bobl sydd eisiau paentio crochenwaith, mae dyn yn teimlo'n eithaf rhwystredig, fel y gallwch ddychmygu. Mae tanio odyn yn fath o gelfyddyd hefyd ac yn achlysurol iawn mae rhywbeth yn mynd o chwith gyda'r broses o danio a gwydro gan achosi pob math o broblemau. Mae'n debyg mai'r ergyd waethaf oedd tua 4 blynedd yn ôl pan oedden ni'n arbennig o brysur; roedd rhagor o eitemau wedi eu gwydro ac yn barod i'w tanio yn yr odyn...a dyna'r odyn yn gwrthod gweithio! Rydyn ni'n dragwyddol ddiolchgar i Grochenwaith Canolfan Gelf Corris a lwyddodd i'n hachub!







**Ydy rhedeg eich busnes eich hun yn helpu gyda'r swydd amser llawn yn ogystal?**

Yn sicr. Gan fy mod yn gweithio gyda myfyrwyr sydd â diddordeb mewn hunangyflogaeth, rwy'n cael bod rhedeg busnes bychan yn fy helpu i empatheiddio ag egin entrepreneuriaid y Brifysgol (sydd hefyd yn cynnwys staff a graddedigion). Byddaf yn aml yn cyfeirio at enghreifftiau o'n dulliau ni o farchnata, trefnu, hyrwyddo a rheoli ein busnes wrth drafod eu syniadau busnes newydd â chlientau entrepreneuraidd.

**Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i aelod o staff neu fyfyriwr sy'n ystyried cychwyn eu busnes eu hunain?**

Gwnewch gymaint o ymchwil ag sy'n bosibl...dowch i adnabod eich cwsmeriaid, eich cystadleuwyr a'ch cyflenwyr...siaradwch â'r bobl hyn i weld beth y maent ei eisiau a faint y maent yn barod i dalu amdano.

Siaradwch â phobl eraill sydd wedi dechrau/neu sy'n rhedeg eu busnes eu hunain.

Datblygwch ryw fath o gynllun gweithredu.

Peidiwch â meddwl yn unig am weithio i chi eich hunan neu weithio i rywun arall...gallwch wneud y ddau beth, cyn belled â'ch bod yn trefnu pethau'n ofalus.

Byddaf yn defnyddio hanes CRACKPOTS mewn ysgolion a cholegau lleol, o dan y rhaglen Patrwm Ymddwyn Syniadau Mawr Cymru pan fyddaf yn siarad â myfyrwyr am y modd y gellir rhedeg busnes ochr yn ochr â swydd amser llawn; rhywbeth sy'n arbennig o berthnasol mewn ardal wledig tebyg i'n hardal ni.

**Os hoffech ragor o wybodaeth am CRACKPOTS, ewch i:**
**www.crackpotsonline.co.uk**

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Dysgwch rhywbeth newydd yn 2016




Dewiswch o:

**Celf a Dylunio**
**Ysgrifennu Creadigol**
**Ecoleg a Chadwraeth**
**Hel Achau**
**Ieithoedd**
**Seicoleg**

Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes
School of Education & Lifelong Learning

**jump.aber.ac.uk/?qbcl**

**www.aber.ac.uk/cy/lifelong-learning**
**Ebost:** dysgu@aber.ac.uk | 01970 621580

BETH SY' YMLAEN

**ARDDANGOSFEYDD YR YSGOL GELF**

**1 Chwefror – 11 Mawrth**



*Stanley Anderson, Purbeck Quarrymen, engrafiad, 1936*

# Dad-wneud y Modern: Gwaith Stanley Anderson (1884-1966)

Mae'r arddangosfa hon yn bwrw golwg ar waith a ffordd o fyw y paentiwr a'r argraffydd Stanley Anderson (1884–1966). Rhennir *Dad-wneud y Modern* yn ddwy brif adran: mae'r naill yn canolbwyntio ar ei feirniadaeth o'r hyn a alwodd yn 'wiriondeb cyfunol "Cynnydd"' a'r llall ar y 'parhad a harmoni ysbryd' a geisiai ac y daeth o hyd iddo y tu hwnt i Lundain. Y curadur yw Harry Heuser ac ef ynghyd â Robert Meyrick yw cyd-awduron y catalog raisonné *Stanley Anderson: Prints a chyd-guradur An Abiding Standard: The Prints of Stanley Anderson RA* (Yr Academi Gelf Frenhinol, Llundain, 25 Chwefror – 24 Mai 2015).

## Tasgfeister: Stanley a'i Ddosbarth yn 1921

Gwaith disgyblion Stanley Anderson, o Gasgliad yr Ysgol Gelf gan gynnwys printiau gan Graham Sutherland, Paul Drury, Edward Bouverie Hoyton a William Larkins.

**21 Mawrth – 6 Mai**

*(ar gau dros y Pasg 25,28 & 29 Mawrth)*



*Paul Newland RWS, Still-Life with the Dream of St Ursula, dyfrlliw/gouache*

## Paentiadau gan Paul Newland a gwaith o gasgliad diploma y Gymdeithas Dyfrlliw Frenhinol

Mae gan Paul Newland RWS NEAC gysylltiad maith ag Aberystwyth. Yn yr arddangosfa hon o waith olew a dyfrlliw datgelir diddordeb dwfn yr artist mewn ysbryd lle y mae'n ei ddarganfod yn rhandiroedd De Llundain ac yn nhirwedd Ceredigion. Newland yw Curadur Anrhydeddus y Gymdeithas Dyfrlliw Frenhinol a bydd ei waith yn cael ei ddangos ochr yn ochr â detholiad o gasgliad diploma clodfawr y Gymdeithas Dyfrlliw Frenhinol, sy'n dyddio'n ôl i amser sefydlu'r gymdeithas yn 1804.

## Handel Evans: gwaith bychan

Arddangosfa gwerthu gwaith ar bapur a'r elw i gyd yn mynd i Gronfa Ymddiriedolaeth Handel Evans. Defnyddir y llog a fydd yn deillio o Gronfa Ymddiriedolaeth Handel Evans i ofalu am ac i hrwyddo'r Casgliad, i ddarparu grantiau ymchwil ar gyfer ymarfer celf a hanes celf, i gynorthwyo cynhyrchu cyhoeddiadau celf ac i gaffael gweithiau celf a deunydd archifol ar gyfer addysgu ac ymchwil.

**CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH**

# Safle 2

**15 Chwefror – 16 Mawrth**

Yr ail gynhyrchiad o'n gŵyl-feicro ddyfeisgar Safle 2 sy'n nodweddu theatr a berfformir mewn ffyrdd newydd ac anghyffredin, yn cynnwys perfformiadau a gynhelir i lawr ar lan-y-môr, mewn cynhwysydd llongau, ar lwyfan, mewn ystafell fechan ac hyd yn oed mewn theatr! Gwledd o berfformiad newydd i'ch difyrru, eich herio a'ch symbylu.



*Smash it Up, Mr & Mrs Clark*



# Cysgu'n Brysur

**8 – 9 Mawrth**

*Cwmni Theatr Arad Goch mewn partneriaeth â Chanolfan Mileniwm Cymru a Chanolfan Celfyddydau Aberystwyth*

Drama gerdd gyfoes, Gymraeg am fod yn ifanc yn yr unfed ganrif ar hugain – yr affêrs a'r fflirtio, angst y dosbarth, y gangiau a'r partïon gwyllt yn y goedwig, moesau ac anfoesoldeb, rhwystredigaeth gydag oedolion a'r ofnau a'r gobeithion. Dyma gynhyrchiad mentrus graddfa fawr gyda chast o 11 actor ifanc egnïol, sgript fachog Bethan Marlow a choreograffi eiconig Eddie Ladd wedi'i seilio ar ganeuon gwych y band Cymraeg 'Bromas' bydd 'Cysgu'n Brysur' yn un o'r cynyrchiadau mwyaf cŵl ers tro byd…

# Gŵyl Ffilmiau Cymru a'r Byd yn Un 2016

**11 – 17 Mawrth**

Mae Gŵyl Ffilmiau Cymru a'r Byd yn Un yn dychwelyd gyda detholiad diddorol ac eclectig o'r gorau oll yn sinema'r byd i chi ei fwynhau. Gweler rhaglen lawn yr ŵyl ar www.wowfilmfestival.com



*Clasur 1928 Oleksandr Dovzhenko sef Arsenal, ynglyn â thrasiedi'r Rhyfel Cartref yn Rwsia*